Pecyn Gwybodaeth

# Mapio Cymunedol
# Pecyn Cymorth



creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Trosolwg o'r Pecyn Cymorth

Beth yw Mapio Cymunedol?

- Cyflwyniad
- Beth all mapio cymunedol ei wneud?
- Y broses mapio cymunedol
- Syniadau allweddol

Cam 1: Cyn Mapio

- Cyflwyniad
- Gosod y fframwaith
- Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol
- Dod o hyd i ffeithiau

Cam 2: Mapio

- Cyflwyniad
- Digwyddiadau / Gweithgareddau Mapio Cymunedol
- Arolwg cymunedol
- Trafod

Cam 3: Symud ymlaen

- Datblygu grŵp partneriaeth
- Dehongli a chyfathrebu'r holl wybodaeth a gasglwyd
- Gweithredu

Cam 4: Cynnal Momentwm

Astudiaethau achos mapio cymunedol
– Straeon o 4 cymuned

# Atodiadau

## Atodiad 1:

Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol

## Atodiad 2:

Paratoi ar gyfer digwyddiad ymgysylltu cymunedol

## Atodiad 3:

Gweithgareddau Mapio Cymunedol

1. Cwis Ffotograffau Cymunedol
2. Bingo Cymunedol
3. Mapio trigolion: Fy hoff lefydd
4. Does unman yn debyg i adre’
5. Mapio heb fapiau
6. Mapiau corff
7. Coeden ddymuniadau
8. Mapio asedau cymunedol
9. Dychmygu delweddau a mapio â lluniau
10. Blaenoriaethu Syniadau
11. Creu gweledigaeth

## Atodiad 4:

Arolwg Cymunedol Sampl - Arolwg Cymunedol Sain Tathan

## Trosolwg o’r Pecyn Cymorth

Dyluniwyd y pecyn cymorth hwn gan y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yng Nghyngor Bro Morgannwg. Mae’n ganllaw hawdd ei ddefnyddio i gynorthwyo cymunedau i ddeall a chymryd rhan yn y broses mapio cymunedol.
Mae’n cynnwys:

- pethau y dylech feddwl amdanynt cyn dechrau ar y broses mapio cymunedol
- sut mae trefnu digwyddiadau mapio cymunedol gyda rhestrau gwirio o’r holl bethau y mae angen i chi eu hystyried
- syniadau ar gyfer ymgysylltiad cymunedol gyda chyfres o daflenni sy’n egluro sut mae’r holl ymarferion gwahanol yn gweithio a’r deunyddiau sydd eu hangen
- cyngor a chanllawiau ar sut i ddod â’r holl wybodaeth ynghyd i fwrw ymlaen, gwerthuso’r broses a rhoi adborth i’r gymuned.

Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy’r broses mapio cymunedol yn ddefnyddiol iawn mewn unrhyw broses ymgeisio am grant. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i chi ddangos y ffordd yr ydych wedi ymgysylltu â’r gymuned a lefel y cymorth cymunedol sydd i’r project.



# Beth yw Mapio Cymunedol?

## Cyflwyniad

Mae'r broses mapio cymunedol (a elwir hefyd yn mapio asedau cymunedol neu fapio adnoddau) yn cydnabod bod gan unigolion, sefydliadau / grwpiau a llefydd corfforol y capasiti i greu newid gwirioneddol yn eu cymunedau, ond ni all unrhyw un wneud hyn ar eu pen eu hunain.

Gyda mwy o atebolrwydd, cyllidebau tynn, llai o adnoddau a gwasanaethau tameidiog, dylai cymunedau annog cydlyniad traws-asiantaeth a thraws-systemau.

Mae'n rhaid deall:

- Pa bartneriaethau a rhaglenni lleol sydd eisoes yn bodoli
- Sut y dyrennir arian
- Pa adnoddau sydd ar gael
- Beth yw blaenoriaethau'r gymuned er mwyn sicrhau bod pobl leol yn derbyn gwasanaeth effeithiol?

Mae mapio cymunedol yn canolbwyntio ar nodweddion positif yr ardal, nid problemau na ddiffygion cymuned. Mae'n ceisio datrys problemau sy'n codi. Mae'r broses yn cynnwys cael pobl i siarad am yr hyn sydd eisoes yn bodoli, o ran asedau cymdeithasol (grwpiau, sefydliadau ac unigolion cymunedol), asedau corfforol (canolfannau cymunedol, lleoedd agored a busnesau), a'r hyn sydd o bwys i'r gymuned. Bydd hyn yn eich helpu adnabod capasiti ac asedau'r gymuned, a chynllunio ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol.



## Beth all mapio cymunedol ei wneud?

**Gall y broses mapio cymunedol helpu cymunedau i gyflawni llawer o dargedau, gan gynnwys:**

- **Adeiladu ar ac ehangu ar gryfderau presennol y gymuned;**
- **Galluogi'r gymuned i ymchwilio i'w hasedau yn yr amgylchedd corfforol a chymdeithasol;**
- **Creu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar y cyd o ran asedau'r gymuned;**
- **Nodi adnoddau newydd;**
- **Sicrhau bod gan y gymuned fynediad at yr adnoddau os oes angen;**
- **Rhoi mwy o ddealltwriaeth i asiantaethau allanol am yr ardal, ac osgoi dyblygu gwasanaethau ac adnoddau;**
- **Meithrin perthnasau a phartneriaethau newydd**
- **Cynnal gwybodaeth gyda'r holl asiantaethau; a**
- **Hyrwyddo cydweithio.**



## Y broses mapio cymunedol

**Mae'r pecyn cymorth hwn yn nodi pedwar cam yn y broses mapio cymunedol:**

1) **Cyn mapio** - sefydlu'r gwaith a fydd angen ei wneud cyn dechrau mapio.
2) **Mapio** - nodi enghreifftiau o ymarferion y gallwch chi eu gwneud i ganfod barn y gymuned a chanllawiau ynglŷn â datblygu arolwg cymunedol.
3) **Bwrw ymlaen** - galluogi'r gymuned i bennu'r cynllun gweithredu mwyaf defnyddiol er mwyn mynd ar ôl canfyddiadau'r data a'r targedau sefydledig yn effeithiol, ynghyd â chanllawiau ar roi adborth i'r gymuned.
4) **Cynnal momentwm** - Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rhan hanfodol o'r cam gweithredu. Mae'r cam olaf ynghylch cynnal a gwerthuso'r ymdrechion a nodwyd yn y broses mapio cymunedol drwy werthuso cynnydd yn gyson, gwneud newidiadau hanfodol i'r cynllun, a dysgu o brofiadau.





## 10 Syniad Da

- Byddwch yn hyblyg o ran eich dull ymgysylltu; ni fydd pawb eisiau cymryd rhan mewn tasg benodol.  Byddai'n well gan rai pobl gael sgwrs.
- Cynlluniwch yr ymgysylltu mapio cymunedol yn drylwyr.
- Byddwch yn glir ac yn syml o ran yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni wrth egluro i bobl eraill.
- Sicrhewch fod eich dulliau ymgysylltu yn syml.
- Hyrwyddwch unrhyw ddigwyddiad yn dda, gan gyfeirio at rwydweithiau presennol a defnyddio Twitter / Facebook.
- Defnyddiwch Saesneg clir heb jargon.
- Sicrhewch fod pawb yn gallu cymryd rhan drwy oresgyn cymaint o rwystrau ag sy'n bosib.
- Cadwch gofnodion fel tystiolaeth o'r gweithgareddau a gynhaliwyd, cyhoeddusrwydd
- Llwyddiannau o ran dogfennaeth a gwersi a ddysgwyd o'r project.
- Mae adborth yr un mor bwysig â'r wybodaeth a gesglir. Sicrhewch fod y gymuned yn cael gwybodaeth gyfredol ynglŷn â chynnydd y project, a sut gall unigolion gymryd rhan.

# **Cam 1:** Cyn Mapio

## Cyflwyniad

Mae'r cam Cyn Mapio yn eich galluogi chi i gasglu gwybodaeth / ystadegau i ddarganfod mwy am yr ardal, ac i ddatblygu rhwydwaith er mwyn canfod pwy ddylech ymgysylltu â hwy ynglŷn â'r cam mapio, ac ynghylch cynllunio cyfeiriad cyffredinol y gweithgareddau mapio.

## Gosod y fframwaith

Mae'n bwysig sefydlu fframwaith ar sut fyddwch chi'n mynd ar ôl y gweithgareddau mapio cymunedol. Yn dibynnu ar pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gymuned, efallai y bydd angen hyd at 3 mis arnoch o waith cynllunio ar gyfer y mapio yng Ngham 2: o leiaf 6 wythnos o gyfnod ymgysylltu, a 2 fis i ddadansoddi a chofnodi'r adborth o'r ymgysylltiad.

Mae angen i chi sicrhau bod gennych adnoddau digonol (o ran y gyllideb ac amser staff) i ymgymryd â'r mapio cymunedol. Ystyriwch y gofynion cyllidebol cyffredinol, fodd bynnag efallai y bydd modd i wirfoddolwyr fod o gymorth gan gynnwys arian ychwanegol ar gyfer comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol, hwyluso annibynnol, cyfathrebu a hyrwyddo, costau argraffu a rhannu.

Rydym yn argymell eich bod yn datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r mapio cymunedol.

**Ymhlith y prif bethau y dylech eu hystyried mae:**

- **Beth yw gweledigaeth ac amcanion y mapio cymunedol?**
- **Pwy sydd angen bod yn rhan o'r peth?**
- **Sut ddylech chi ymgysylltu â'r gymuned?**
- **Ble a phryd ddylech chi ymgynghori?**
- **Beth am gyhoeddusrwydd?**
- **Beth yw'r rhwystrau o ran ymgysylltu?**

*• Cyfeiriwch at Atodiad 1 i gael rhagor o gyngor ar ddatblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol.*



## Datblygu rhwydwaith cymunedol

Mae pennu pa randdeiliaid, grwpiau cymunedol ac unigolion ddylai fod ynghlwm wrth y broses mapio yn hanfodol ar ddechrau'r broses mapio. Dylai hyn gynnwys cwrdd ag unigolion i ddarganfod beth maent eisiau ei wneud a ble, pwy maen nhw'n eu hadnabod ac i ganfod a oes arnynt awydd cymryd rhan ymarferol yn y broses mapio. Fel arfer, bydd cwrdd ag unigolyn yn arwain at gysylltiadau newydd a defnyddiol yn y gymuned.

**Mae datblygu a chynnal perthnasau newydd gyda rhanddeiliaid yn cymryd amser. Mae cynhyrchu cronfa ddata cysylltiadau yn ffordd ddefnyddiol o gael cyfeirlyfr rhwydd o bobl y gymuned.**



## Dod o hyd i ffeithiau

Byddai casglu tystiolaeth waelodlin yn ddefnyddiol er mwyn monitro cynnydd yn ei herbyn. Mae ymchwilio i ystadegau lleol i gael gwybodaeth am yr ardal leol yn hanfodol. Ymhlith gwefannau defnyddiol y gallwch gasglu data arnynt mae:

- **Ffeithiau a ffigyrau Bro Morgannwg** - http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/vale_facts_and_figures/vale_facts_and_figures.aspx
- **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014** - http://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-en.pdf
- **InfoBaseVale** - http://vale.infobasecymru.net/IAS/
- **Ystadegau Troseddol** - http://www.ukcrimestats.com/Neighbourhood/South_Wales_Police/St._Athan
- **Ystadegau'r Heddlu** - https://www.police.uk/south-wales/
- **Ystadegau Troseddol DU** - http://www.crime-statistics.co.uk/

# Cam 2: Mapio

## Cyflwyniad

Byddwch wedi adnabod y prif rhanddeiliaid sydd angen i chi ymgysylltu â hwy yn y broses mapio, ac wedi creu gweledigaeth gyffredin a chyfres o amcanion. Mae'r proses mapio cymunedol yn eich galluogi chi i ddefnyddio'r weledigaeth a'r amcanion i nodi a gwerthuso defnyddioldeb yr adnoddau presennol ac adnoddau posib.

Mae'r cam hwn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid a'r gymuned i gasglu data neu adnoddau ac i ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd.
Er ei bod yn cymryd cryn dipyn o amser i wneud y gwaith mapio, dyma'r cam sy'n rhoi'r boddhad mwyaf gan bod perthnasau newydd yn dechrau datblygu. Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi ymgysylltu gyda'r gymuned i gael adborth, gan gynnwys cynnal digwyddiadau/gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, cynnal arolygon cymunedol a chael sgyrsiau anffurfiol. Y nod yw creu momentwm cymunedol a chael pobl i siarad am faterion sy'n eu diddori'n lleol.

Bydd angen i chi gasglu tîm o wirfoddolwyr ynghyd â chael arian ar gyfer argraffu arolygon/ taflenni, llogi ystafelloedd a darparu lluniaeth ac ati. Gall y tîm helpu i ledaenu'r neges am y mapio cymunedol, cynorthwyo i ddosbarthu taflenni, datblygu arolwg cymunedol a helpu wrth ddadansoddi data yn ogystal â gwirfoddoli mewn digwyddiadau i gael adborth o'r gymuned.

Pobl o'r gymuned yw'r bobl orau i arwain ar waith mapio cymunedol, gan bod gan drigolion rwydweithiau/cysylltiadau yn barod. Mae'n bwysig fodd bynnag bod unrhyw un sy'n ymwneud â mapio cymunedol yn agored, yn gynhwysol ac yn groesawgar. Cofiwch y dylai pawb gael y cyfle i siarad a rhoi adborth fel aelod o'r gymuned.

## Digwyddiadau/gweithgareddau ymgysylltu cymunedol

Mae'n bosib y penderfynwch gynnal digwyddiad eich hunain (gallai fod yn ddigwyddiad i wahoddedigion o grwpiau arbennig neu'n wahoddiad agored i'r holl gymuned) neu gysylltu â digwyddiad/gweithgaredd sy'n bodoli'n barod (fel Ffair Nadolig, ffair haf, arddangosfa tân gwyllt neu sioe gynnyrch yr haf) er mwyn ymgysylltu gyda'ch cymuned. Neu mae'n bosib y byddwch am dargedu grwpiau arbennig fel pobl ifanc neu bobl hŷn drwy fynd i ddigwyddiadau y maen nhw'n eu mynychu e.e. Brownies, Cubs neu glybiau cinio i bobl hŷn.

Os ydych yn trefnu digwyddiad penodol, cofiwch am:

- **RSVP's** – ydych chi'n gwbod faint, a phwy sy'n dod?
- **Lleoliad a dyluniau yr ystafell** – mae'n ddefnyddiol bob amser i gael ystafell ddigon mawr i ganiatáu i bobl gymysgu
- **Agenda ar gyfer y diwrnod** - rhowch ffocws i'r digwyddiad gydag agenda wedi'i hamseru'n benodol gydag amrywiaeth o weithgareddau
- **Offer / bwyd** - Pa offer / lluniaeth fydd angen arnoch chi?
- **Gwirfoddolwyr**- pwy fydd yn gallu helpu o flaen llaw ac ar y diwrnod?

Bydd rhaid i chi ganolbwyntio ar yr hyn yr ydych am ei gyflawni o'r digwyddiad, a chynllunio'n ofalus ar ei gyfer. Mae'n bwysig peidio â threfnu gormod ar gyfer y digwyddiad cyntaf, ond i roi amser i bobl sgwrsio, rannu eu barn a rhoi adborth.

Mae Atodiad 2 yn rhoi canllawiau ar sut mae cynnal digwyddiad ymgysylltu cymunedol gan gynnwys cyngor ar drefnu digwyddiadau, yr offer sydd ei angen, pethau i gofio ar y diwrnod a phethau i feddwl amdanynt pan rydych chi yno. Dylech werthuso'r holl adborth ar ôl pob digwyddiad.

Cofiwch bod pobl yn rhoi o'u hamser i gyfrannu felly gwnewch yn siŵr bod y digwyddiadau mor hwyliog, ysgafn ac anffurfiol a phosibl i sicrhau bod pobl wedi ymlacio ddigon i gymryd rhan.

I'ch cynorthwyo i gynnal digwyddiadau a grwpiau ffocws, isod mae awgrymiadau o weithgareddau sy'n ffyrdd posib o gael adborth a phobl i siarad. Nid yw'n fwriad cynnwys y gweithgareddau hyn i gyd mewn un digwyddiad, yn hytrach dewiswch un neu ddau fydd orau i'ch cymuned chi.

## • Torri'r iâ:

Mae digwyddiad i dorri'r iâ yn ffordd garedig o sicrhau bod PAWB sy'n cymryd rhan yn dechrau siarad â'i gilydd a dod i nabod enwau pobl yn eu cymuned. Maent yn arbennig o ddefnyddiol pan mae pobl yn cyfarfod am y tro cyntaf, yn ogystal â bod yn ffordd effeithiol o gael pobl i siarad â phobl eraill fydden nhw ddim fel arfer yn siarad â nhw.

Mae digwyddiadau i dorri'r iâ yn ymarferiadau gweddol egnïol. Maen nhw'n ffordd dda o gael pobl i symud o gwmpas yr ystafell. Mae'n ffordd dda o rannu pobl i grwpiau llai a chymysgu llond ystafell o bobl, fel nad yw pawb yn eistedd nesaf at eu ffrindiau. Gellir gwneud hyn drwy gael y grŵp i ffurfio'i hun yn un llinell hir, ar sail maen prawf arbennig e.e.

- Ers faint mae rhywun wedi byw yn y gymuned – o'r cyfnod byrraf i'r cyfnod hiraf
- Enw Cyntaf – Andrew i Zoe
- Taldra – Byrraf i'r talaf
- Dyddiad Geni yn ôl y mis – Ionawr i Ragfyr

## • Cwis Ffotograffau Cymunedol

Un gweithgaredd grŵp i dorri'r iâ yw rhoi tudalen o ffotograffau i bob grŵp o wahanol safleoedd yn y gymuned, a gofyn iddyn nhw nodi ar fap lle maen nhw. Y grŵp cyntaf i leoli pob ffotograff fydd yn ennill.

**Pethau i'w hystyried!**

- Rhaid i rywun fynd i dynnu'r ffotograffau a'u lleoli ar fap.
- Rhaid medru argraffu map o'r gymuned.
- Mae'n ffordd dda o gael adborth am ba mor dda mae pobl yn nabod eu cymuned a'r hyn sydd o'u cwmpas.
- *Mae'n ddefnyddiol i gael gwobr ar gyfer y weithgaredd hon gan bod pawb yn hoffi ennill.*

## • Bingo cymunedol

Gellir cynnal hwn mewn un o ddwy ffordd:

i. Digwyddiad torri'r iâ i gael pobl yn siarad a cherdded o amgylch yr ystafell i ddarganfod pethau am ei gilydd. Rhoir rhestr o gwestiynau ynglŷn â'u cymuned leol i bob unigolyn i ofyn i eraill. Y cyntaf i ateb pob cwestiwn sy'n galw BINGO ac yn ennill.




ii. Gweithgaredd grŵp/unigol ysgrifenedig – rhoir rhestr o gwestiynau bingo ynglŷn â'u cymuned leol i bob unigolyn/grŵp a gofynnir iddyn nhw lenwi'r blychau. Y cyntaf i'w gwblhau fydd yn galw BINGO ac yn ennill.

- *Mae'n ddefnyddiol i gael gwobr ar gyfer y weithgaredd hon.*

**Pethau i'w hystyried!**

Fformat torri'r iâ
- Oes digon o le i bawb gymysgu?
- Ydi pawb yn gallu mynd o amgylch yr ystafell?


Gweithgaredd Ysgrifenedig
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn argraffu mewn ffont mawr clir.
- Ydi pob un yn ddarllenwr/ysgrifennwr hyderus? Gall gweithio mewn grwpiau fod o gymorth fan hyn, yn arbennig nad yw pawb am gymryd rhan er yn barod i gael sgwrs.



## • Coeden ddymuniadau:

Gweithgaredd i gael adborth am ddyheadau'r gymuned. Mae modd i grŵp o 4 o bobl neu fwy ei gwblhau.

Mae'r ymarferiad hwn yn ffordd dda o gael adborth anffurfiol mewn sesiynau galw heibio, a dechrau sgyrsiau yn ogystal ag ymarferion grŵp mewn grwpiau ffocws. Mae'n rhaid i chi dynnu amlinelliad o goeden heb ddail. Gofynnir i bobl ysgrifennu beth yw eu gobeithion am y dyfodol ar ddail neu nodiadau 'post-it' a'u glynu wrth y goeden.  Gallai rhannau gwahanol o'r goeden nodi gwahanol fathau o obeithion e.e. y gwreiddiau'n cynrychioli'r gwerthoedd mwy, y boncyff yn cynrychioli adnoddau yn y gymuned i helpu'r gwerthoedd hynny a'r canghennau yn dynodi canlyniadau penodol.



### Pethau i'w hystyried

- Mae pobl o bob oed yn hoffi'r gweithgaredd hwn gan ei fod yn anffurfiol ac maent yn fodlon rhoi eu syniadau.
- Mae plant yn hoffi tynnu llun a thorri siâp dail.
- Os yn cynnal y gweithgaredd mewn grŵp, gallech roi 3 deilen yr un i bob un i fyfyrio ac ysgrifennu arnynt yn unigol, cyn rhannu'r syniadau gyda gweddill y grŵp.
- Mae'n bosib ymestyn y drafodaeth i weithgaredd grŵp i'w cael i grwpio a blaenoriaethu awgrymiadau.

## • Does unman yn debyg i adre'



Ymarferiad unigol i geisio canfod ble mae cyfranogwyr yn cael mynediad at wasanaethau ac a oes unrhyw rwystrau yn hyn o beth. Rhoir dalen o bapur i'r rhai sy'n cymryd rhan a gofynnir iddyn nhw dynnu llun calon yn ei ganol gyda'r rhif cod post ynddo.

Gofynnir iddyn nhw wedyn ddefnyddio saethau i nodi:

- Pa gyfleusterau/wasanaethau y maen nhw'n eu defnyddio?
- Ymhle mae'r gwasanaethau/cyfleusterau?
- Pa bryd yr ydych yn eu defnyddio?
- Sut fyddwch chi'n eu cyrraedd?
- A oes unrhyw rwystrau?


### Pethau i'w hystyried

- Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau gyda chynulleidfa darged all ganolbwyntio arno.
- Mae'n ymarferiad defnyddiol i gael pobl i feddwl a dod o hyd i syniadau, ond mae hefyd yn gallu ysgogi trafodaeth yn fuan.
- Mae'n cynnig adborth da am ba wasanaethau a ddefnyddir yn yr ardal.
- Mae'n ffordd dda o annog trafodaeth bellach ynglŷn â pha fath o wasanaethau yr hoffent weld yn eu cymuned, a'r materion sy'n codi o rwystrau i bobl eu defnyddio.

# Cam 2: Mapio

## • Mapio heb fapiau

Gweithgaredd unigol gyda grŵp ffocws lle bydd gofyn i gyfranogwyr dynnu llun ar ddarn gwag o bapur, lwybr penodol y maen nhw'n cerdded arno'n gyson a nodi'r cyfleusterau / y gwasanaethau y maent yn eu pasio ar y ffordd, er enghraifft y llwybr o'u tŷ i'r siop leol/canolfan gymunedol.



**Pethau i'w hystyried**

- Mae'n ymarferiad defnyddiol i gael pobl i ddod o hyd i syniadau yn unigol, ac i feddwl am yr hyn sydd yn eu cymuned leol a pha mor dda y maen nhw'n ei adnabod.
- Mae'n cynnig adborth defnyddiol am ba gyfleusterau sydd mewn cymuned a pha weithgareddau sy'n digwydd yno.



## • Mapiau corff

Dyma ymarferiad grŵp sy'n cynnwys tynnu llun o gorff a gofyn i gyfranogwyr lynu nodiadau 'post-it' drosto i nodi'r canlynol:

- beth maen nhw'n ei garu am yr ardal (nodiadau post-it ar y galon)
- pa wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio yn yr ardal (nodiadau ar y coesau a'r traed)
- beth yw eu gobeithion a'u dyheadau (nodiadau ar y pen)

**Pethau i'w hystyried**

- Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau gyda chynulleidfa darged all ganolbwyntio arno.
- Roedd y plant wrth eu bodd yn tynnu lluniau o amgylch cyrff ei gilydd.
- Mae'n bosib ymestyn y drafodaeth i weithgaredd grŵp i gael cyfranogwyr i grwpio a blaenoriaethu awgrymiadau ynglŷn a'u gobeithion a'u dyheadau.





## • Mapio trigolion: Fy hoff lefydd

Gweithgaredd grŵp yn cynnwys gofyn i drigolion roi nodiadau 'post-it' ar fap mawr o'r ardal gan nodi'r hyn y maen nhw'n ei wybod am eu cymuned leol. Mae'r ymarferiad hwn yn ffordd dda o gael adborth anffurfiol mewn sesiynau galw heibio, a dechrau sgyrsiau yn ogystal ag ymarferion grŵp mewn digwyddiad.

**Pethau i'w hystyried**

- Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn i nodi lle mae cymuned yn ystyried sy'n galon y pentref.
- Mae'n gymorth i wybod pa bethau sydd o ddiddordeb i drigolion, neu am beth y maen nhw'n frwdfrydig yn ei gylch yn eu cymuned leol.

## • Dychmygu delweddau a mapio â lluniau

Gofynnodd gyfranogwyr a oedd hi'n bosib iddynt greu darlun o'u cymuned mewn lluniau, gan ofyn iddyn nhw dynnu lluniau o bobl neu leoedd a oedd o bwys neu arwyddocâd iddyn nhw. Gellir gwneud hwn yn unigol neu mewn grwpiau llai fel rhan o grŵp ffocws.  Gallwch ofyn i unigolion roi adborth ynglŷn â pham bod y ffotograffau yn cynrychioli eu cymuned.



**Pethau i'w hystyried**

- Rhaid cael gafael ar offer ffotograffig.
- Os ydych am gael sesiwn adborth bydd rhaid i chi gael gafael ar daflunyddion / argraffwyr fel bod pobl yn gallu gweld y lluniau.
- Mae'n ffordd dda o gael sgyrsiau anffurfiol ac edrych ar y gymuned yn fanwl.
- Gellid gwneud hyn ar ffurf cystadleuaeth ffotograffiaeth i'r pentref, gyda phentrefwyr yn cynnig lluniau a disgrifiadau i'r gystadleuaeth.  Mae'n bosib y bydd angen gwobr.

# **Cam 2:** Mapio

## • Mapio asedau cymunedol

Gweithgaredd grŵp a oedd yn dod â'r gymuned ynghyd i ddiffinio'r mathau gwahanol o asedau corfforol yn yr ardal. Mae'r ymarferiad hwn yn ffordd dda o gael adborth anffurfiol mewn sesiynau galw heibio, a dechrau sgyrsiau yn ogystal ag ymarferion grŵp mewn digwyddiad. Bydd angen cynllun mawr o'r ardal arnoch. Gofynnir i'r cyfranogwyr nodi pa asedau sydd yn eu cymuned, pa weithgareddau sy'n digwydd yno a phwy sy'n eu defnyddio? Mae hwn yn weithgaredd defnyddiol i gael deall beth sy'n digwydd mewn cymuned



**Pethau i'w hystyried**

- Bydd angen cynllun mawr o'r ardal arnoch.
- Rhaid sicrhau bod manylion yn cael eu casglu ar nodiadau 'post-it'.
- Gall fod yn gymorth i annog trafodaeth ar ba un ai ydi cyfleusterau'n cael eu tanddefnyddio, ac a oes cyfleoedd am weithgareddau newydd yn y pentref.
- Mae'n bosib y bydd modd cynllunio gwasanaethau / cyfleusterau yn ddigidol yn y gymuned ar gyfer y dyfodol

## • Blaenoriaethu Syniadau

Gweithgaredd i ysgogi sgyrsiau, drwy ofyn i gyfranogwyr bleidleisio dros ba fater /cynllun yw'r flaenoriaeth uchaf yn y gymuned. Gall y rhai sy'n cymryd rhan naill ai gael tocyn i'w ddefnyddio i bleidleisio dros un pwnc, neu gael swm o arian Monopoly i'w wario ar flaenoriaethau. Mae'r gweithgaredd yn ffordd gyflym o ddechrau sgyrsiau a chael adborth anffurfiol mewn sesiynau galw heibio ond gellid ei ddefnyddio yn yr un modd mewn digwyddiad lle datblygwyd rhestr o syniadau sydd angen eu blaenoriaethu.




**Pethau i'w hystyried**

- Mae'n gyflym, yn hawdd ac yn rhyngweithiol.
- Mae angen blychau / tocynnau / arian Monopoly.
- Mae'n addas i bob oed.

## • Creu gweledigaeth



Ymarferiad grŵp yn galluogi grŵp / tîm craidd i nodi gweledigaeth ar gyfer eu project.Ymarferiad i ddilyn nifer o'r gweithgareddau uchod gan gynnwys y goeden ddyheadau a mapio cyrff, fel ffordd bosib o greu gweledigaeth i'r gymuned. Rhaid i'r cyfranogwyr nodi tri o bethau sy'n hanfodol i ddyfodol eu cymuned, a chyda phapur siart troi, dod â geiriau at ei gilydd mewn themâu a'u troi'n weledigaeth.

**Pethau i'w hystyried**

- Byddai hyn yn heriol i rai cyfranogwyr.
- Efallai y byddai'n fwy priodol i'r grŵp sy'n hwyluso'r gwaith mapio cymunedol i ddod ynghyd unwaith y mae'r adborth o'r mapio wedi'i werthuso, i weithio gyda'i gilydd ar ddatganiad o weledigaeth.

*Mae Atodiad 3 yn cynnwys cyfres o daflenni gwaith ar gyfer pob un o'r gweithgareddau unigol. Gellid defnyddio'r gweithgareddau hyn gyda grwpiau targed neu yn ystod ymarferiad ymgysylltu â grŵp ffocws penodol.*

## Arolwg cymunedol



Ynghyd â threfnu digwyddiadau mapio cymunedol, efallai y byddwch eisiau ymgymryd ag arolwg cymunedol i dargedu pobl na fydd arnynt awydd mynychu digwyddiadau neu sesiynau galw heibio i fynegi eu barnau. Dylech ystyried cynnal yr arolygon ar-lein gyda dolenni at dudalennau cyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â'r fersiynau papur i'w rhannu naill ai i bob cartref neu i brif leoliadau'r gymuned. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi digon o amser i bobl gwblhau'r arolygon, a therfyn amser clir ar gyfer pryd y mae'n rhaid eu cyflwyno nhw.

O fewn eich tîm mapio cymunedol, mae'n werth gweld a oes unrhyw un ymhlith y gwirfoddolwyr â phrofiad o ddatblygu a dadansoddi arolygon. Mae hyn yn rhan o'r broses mapio cymunedol sy'n gallu cymryd amser.

**Mae llawer o wefannau y gallwch eu defnyddio i greu arolygon ar-lein gan gynnwys:**

- **Survey monkey - https://www.surveymonkey.co.uk**
- **QuestionPro - http://www.questionpro.com/survey-templates/community-surveys**
- **Google Forms - https://www.google.co.uk/forms/about/**

Mae enghraifft o arolwg cymuned a ddatblygwyd ar gyfer cymuned Sain Tathan wedi ei atodi fel canllaw, ond byddai angen ei addasu er mwyn cynrychioli'r problemau yn eich cymuned benodol chi (cyfeiriwch at Atodiad 4). Sylwch bod hwn yn arolwg cymunedol cyffredinol, fodd bynnag, byddai angen cwestiynau mwy penodol petai'r mapio cymunedol yn berthnasol i faterion allweddol e.e. mannau chwarae i blant. Awgrymir felly eich bod yn addasu'r holiadur yn ôl y materion sy'n berthnasol i'ch cymuned.

## Trafod

Efallai na fydd rhai pobl eisiau ymgysylltu'n ffurfiol ag ymarferiad mapio cymunedol neu arolwg, fodd bynnag gallent fod yn fodlon iawn ar drafod ar y stryd neu mewn cyfarfod grŵp. Ni ddylid diystyru'r math hyn o ymgysylltu, oherwydd yn aml mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol mewn sgyrsiau er eu bod nhw'n cymryd lot o amser i'w cynnal. Dylech wneud nodiadau yn ystod neu'n syth ar ôl y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau bod yr adborth yn cael ei gofnodi.



## Datblygu grŵp partneriaeth

Gall yr wybodaeth a gesglir drwy'r ymarferion mapio cymunedol helpu i:

- ddatblygu partneriaethau newydd yn y gymuned
- sicrhau bod rhanddeiliaid a'r gymuned yn gweithio'n agosach
- ehangu darpariaeth gwasanaeth y gymuned.

Gall datblygu partneriaeth newydd ddod ag egni a syniadau newydd i brojectau cymunedol.

## Dehongli a chyfathrebu'r holl wybodaeth a gasglwyd

Unwaith y bydd y broses ar ben, mae'n rhaid ei dadansoddi a'i dehongli ar gyfer y rhanddeiliaid a'r gymuned. Byddai'n ddefnyddiol trefnu'r wybodaeth a gasglwyd yn unol â'ch datganiad gweledigaeth ac amcanion. Mae'n bwysig nodi'r tueddiadau yn y ffurflen adborth o bob ymarferiad.

Mae'n bwysig i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch canlyniadau eich gweithgareddau mapio cymunedol. Gellid defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses mapio i helpu rhanddeiliaid a'r gymuned wneud penderfyniadau ynghylch gwella, datblygu a/neu barhau â gwasanaethau presennol neu ddatblygu rhai newydd. Mae modd ei ddefnyddio hefyd i godi ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr gwasanaeth, ac i ysgogi unigolion a sefydliadau i wella eu perfformiad.

Efallai y byddwch yn dymuno paratoi adroddiadau manwl yn egluro'r canfyddiadau i randdeiliaid, yn ogystal â chylchlythyr sy'n nodi'r prif ganfyddiadau. Mae datganiadau i'r wasg a diweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffordd ddefnyddiol o rannu'r wybodaeth a gasglwyd. Mae'n bwysig defnyddio dull adrodd syml sy'n addas i bawb.

## Gweithredu

Bydd rhoi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses mapio ar waith yn gam heriol a phwysig.

**Dylai'r Cynllun Gweithredu nodi:**

- camau strategol
- y bobl neu'r sefydliadau sy'n gyfrifol am weithrediad penodol
- dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gweithrediad
- sut fyddwch chi'n mesur llwyddiannau
- y dulliau ar gyfer goresgyn yr heriau hyn
- cyfleoedd ariannu / adnoddau newydd

Y peth gwaethaf y gallwch chi ei wneud yw creu cynllun gweithredu ac yna anghofio amdano! Mae'n bwysig bod gennych strwythur sefydliadol sefydledig ymlaen llaw i wneud y broses weithredu yn rhwyddach. Byddwch angen:

**Arweinydd** - person sy'n actif yn y gymuned ac sydd â phŵer o ran gwneud penderfyniadau ac sydd â sgiliau dylanwadu er mwyn annog partneriaid newydd.

**Cynllunwyr** - unigolion sy'n gyfrifol dros reoli gweithrediad cyffredinol y cynllun gweithredu.

**Gweithredwyr** - unigolyn sy'n gyfrifol dros ganolbwyntio ar ddylunio a gweithredu strategaethau er mwyn ymgymryd â'r cynllun gweithredu.

Unwaith y bydd cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn cyfathrebu'r prif weithrediadau gyda'r gymuned leol ac ar lefel sirol, rhanbarthol a chenedlaethol.



# **Cam 4:** Cynnal Momentwm

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd cam yn ôl ac yn ystyried y broses yn gritigol, cyrhaeddiad o ran eich amcanion ac effaith eich ymdrechion hyd yn hyn. Bydd mesur llwyddiant o ran cyflawni eich targedau yn rhywbeth cyson trwy gydol y broses.

Mae gwerthuso hefyd yn broses barhaus sy'n hwyluso newid yn ôl yr angen. Mae'n sicr y bydd heriau annisgwyl yn dod i'r amlwg yn ystod y broses, ac mae'n bwysig eich bod yn ddigon hyblyg er mwyn goresgyn yr heriau wrth iddynt godi ac felly addasu'r cynlluniau'n ôl yr angen. Efallai y bydd angen i chi newid eich datganiad gweledigaeth, eich amcanion neu'r cynllun gweithredu i gynnwys barnau newydd, ynghyd ag ail-drefnu eich aelodaeth os oes angen. Bydd hyn yn eich galluogi i gymryd mantais o gyfleoedd ac adnoddau newydd.

Bydd ymgymryd â gwaith gwerthuso rheolaidd yn galluogi'r grŵp i sicrhau bod y rhanddeiliaid a'r gymuned yn cael gwybodaeth gyfredol ynghylch y cynnydd, y canlyniadau a'r heriau, ynghyd â chynorthwyo gyda phenderfyniadau ar y cyfeiriad i'r dyfodol.

Mae mapio cymunedol yn broses barhaus ac nid oes ganddo fyth unrhyw ddyddiad gorffen penodol. Mae angen i'r grŵp ddangos ymrwymiad hirdymor i newid a chynllunio ar gyfer 'ail-fapio' i fodloni targedau newydd a rhai sy'n newid. Bydd cyfathrebu rheolaidd yn sicrhau bod y momentwm a'r ymdrechion yn cael eu cynnal.



# Astudiaethau achos mapio cymunedol - Straeon o 4 cymuned

Fel rhan o ddatblygu'r offer mapio cymunedol, gofynnwyd i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol ei dreialu er mwyn cael adborth ar sut yr oedd y broses mapio gymunedol yn gweithio'n ymarferol a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd. Treialwyd mewn pedair cymuned pob un ag agwedd wahanol a chanfyddiadau gwahanol. Dyma'r straeon...

## Cymuned 1: Stori Sain Tathan


Pan ddechreuodd y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol y cynllun peilot mapio yn Sain Tathan yn gynnar yn 2016, doedd dim un grŵp penodol oedd yn awyddus i fynd i'r afael â'r project. Y teimlad cyffredinol ddaeth gan y gymuned oedd pam eich bod chi'n gwneud hyn?

Roedd rhai grwpiau yn creu eu bod yn gwybod am bob dim oedd yn digwydd yn eu cymuned leol, tra bod eraill yn ddi-hid a heb gredu y gallai dim byd cadarnhaol ddigwydd. Roedd rhai preswylwyr yn amharod i chwarae rhan gan deimlo y dylai'r Cyngor ddarparu'r holl wasanaethau ar eu cyfer nhw. Llwyddodd yr ymarferiad mapio i dorri drwy'r agwedd yma wrth i CGC ddatblygu perthnasau da â phrif gymeriadau yn y gymuned a ledled cyngor y Fro. Galluogodd hyn i berthnasau cryfach ddatblygu rhwng preswylwyr, rhanddeiliaid eraill a swyddogion.

Roedd y peilot mapio cymunedol yn cynnwys pob eiddo yn ward Sain Tathan ynghyd â phreswylwyr West Camp sy'n rhan o ward Llanilltud Fawr.

Yn ystod ein sgwrs gychwynnol gyda phreswylwyr roeddem yn ddigon ffodus i gwrdd â sawl preswylydd unigol brwdfrydig dros ben, oedd yn awyddus i sicrhau newid. Fe ddaethon nhw'n asgwrn cefn i'n hymgysylltiad ni o fewn y gymuned. Heb eu cefnogaeth, eu gwybodaeth a'u cysylltiadau lleol, help wrth ddosbarthu taflenni a hyrwyddo cefnogaeth gymunedol a newid er gwell, ni fyddai'r cynllun wedi llwyddo fel y gwnaeth.

O ystyried taw hwn oedd y cynllun peilot cyntaf, fe ddechreuon ni ar ein taith mapio gymunedol gyda'n gilydd gan weithio'n dda fel tîm i dynnu mwy o



breswylwyr i'r project ac i ddysgu amdano. Arweiniodd CGC ar gynhyrchu arolwg cymunedol, taflenni hyrwyddo, taflenni bychain a phosteri a datganiadau i'r wasg i hyrwyddo'r digwyddiadau mapio cymunedol galw-i-mewn a'r arolwg cymunedol. Cynorthwyodd y grŵp o breswylwyr allweddol i ddosbarthu holiaduron, taflenni a phosteri i'r holl breswylwyr a busnesau lleol ac i lefydd cyhoeddus a thrwy wneud hynny roeddent yn adeiladu momentwm cymunedol, yn dechrau sgyrsiau a chael pobl i feddwl ynghylch yr hyn allasent ei wneud yn y gymuned. Dywedodd y Cynghorydd John Thomas 'Mae grŵp da o aelodau iau'r gymuned bellach yn chwarae rhan yn y gymuned'.

Wrth edrych yn ôl, doedd y sesiynau galw heibio yn Sain Tathan ddim gyda'r modd mwyaf llwyddiannus o ddwyn preswylwyr ynghyd i drafod eu huchelgais dros yr ardal ac ychydig iawn o breswylwyr a ddaeth i gael sgwrs ar ôl gweld y taflenni hyrwyddo. Ond fe wnaethom eu cynnal fodd bynnag mewn lleoliadau allweddol yn y gymuned gan gynnwys canolfannau cymunedol a'r llyfrgell felly roeddem yn gallu sgwrsio gyda'r bobl hynny oedd yn dod i'r adeiladau yna beth bynnag, yn hytrach na dod yn benodol i'r digwyddiad mapio cymunedol. Roedd teimlad di-hid cyffredinol ac nad oedd a wnelo'r mapio cymunedol ddim byd a hwy.

Roedd yr arolwg cymunedol yn llwyddiannus, wrth i'r preswylwyr gweithgar annog preswylwyr eraill i'w gwblhau. Cwblhawyd cyfanswm o 214 o arolygon. Er ei fod yn cymryd amser fe gawsom nifer o sgyrsiau gydag unigolion mewn gweithgareddau amrywiol oedd eisoes yn digwydd yn yr ardal. Roeddem wedi trefnu hynny ymlaen llaw gyda'r trefnwyr cyn cyrraedd. Er enghraifft yn y grŵp Dysgu a Chwarae, roedd mamau yn hapus i gael sgwrs a chynnig syniadau am ddyfodol yr ardal, ond nad oedd efallai â'r gallu i gwblhau arolwg neu fynd i'r afael gyda'r offer i gwblhau ymarferiad mapio cymunedol. Yn y Grwpiau Brownie a Geidiau, cymerodd y plant ran frwdfrydig yn y gwahanol ymarferion mapio cymunedol gan fwynhau'r ymarfer Mapiau Corff a Mapio Heb Fap. Roedd arbrawf y gweithgaredd bingo cymunedol gyda'r gr p bingo yn llai llwyddiannus. Roedd cyfranogwyr yn fwy na hapus i sgwrsio, yn hytrach na chwblhau'r daflen bingo.



Roedd y rhai gymerodd ran yn yr ymarferiad mapio cychwynnol yn teimlo eu bod wedi dod i adnabod eu cymuned leol yn well o safbwynt yr hyn oedd ar gael yno a phwy oedd yno. Roedd y sgyrsiau a gafwyd ar hyd y daith mor bwysig wrth adeiladu perthnasau newydd




a chwalu'r rhwystrau. Teimlwyd ei bod yn broses bwysig i ddwyn cenedlaethau gwahanol ynghyd. Dywedodd un Cynghorydd Cymuned lleol yn Sain Tathan 'mae cysylltiadau gwell gen i nawr gyda chymuned ehangach sydd â blaenoriaethau gwahanol sydd hefyd ag angen sylw a fyddai fel arall wedi cael eu hanwybyddu.'

Un o ganlyniadau gwirioneddol gadarnhaol yr ymarferiad oedd i'r SEINTIAU gael eu ffurfio i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â dau o'r prif faterion a godwyd gan y mapio cymunedol. 1) i wella'r mannau chwarae a 2) mwy o weithgareddau i blant. Erbyn yr haf 2016 fe gynorthwyon nhw i drefnu diwrnod hwyl cymunedol a fynychwyd gan nifer dda ac ystod eang o blith y gymuned. Dywedodd Lisa, cadeirydd y SEINTIAU "Roedd yn llwyddiannus am i ni gynnwys pobl. Rydym am iddynt i gyd deimlo'n rhan o'r llwyddiant a helpu tuag at ddyfodol yr ardal'. Roedd y SEINTIAU yn awyddus i wneud cais am arian i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (CDCG) ar gyfer y man chwarae ac maent wedi bod yn brysur yn codi arian, yn cynnal mwy o weithgareddau plant a defnyddio'r offer mapio cymunedol i fynd i'r afael ag ymgynghoriadau gyda'r plant ysgol a'r rhieni.



Canlyniad arall i'r mapio oedd sylweddoliad y Cyngor Cymuned nad oedd preswylwyr yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd. O ganlyniad mae'r Cyngor Cymuned erbyn hyn wedi diweddaru ei wefan. Mae rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y canolfannau cymunedol, llyfrgell a'r Cyngor Cymuned nawr yn cydweithio i ddatblygu cyfarwyddlyfr cymunedol a chalendr i hyrwyddo popeth sy'n digwydd yn Sain Tathan. Dywedodd Sharon, rheolwr y Gathering Place fod 'derbyniad



da wedi bod i'r mapio cymunedol. Roedd yn dda gweld trosolwg o'r hyn oedd yn digwydd yno.' O ganlyniad i adborth gan y mapio cymunedol, roedd gweithgaredd ychwanegol fel Zumba wedi ei drefnu yn y Gathering Place.

Mae'r sylwadau gan Charlotte, cynrychiolydd Canolfan Gymunedol Sain Tathan, yn dweud y cwbl, 'Rwyf wedi profi cysylltiad gyda phobl yn fy nghymuned na fyddwn wedi cwrdd â nhw fel arall. Yn raddol dwi'n credu bod mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu'n lleol. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnom am yr ardal er mwyn gwneud gwelliannau. Tanlinellwyd yr hyn oedd angen i ni ei wella. Mae'r profiad wedi bod yn wych. Rwy'n teimlo fy mod wedi dysgu cymaint ac rwy'n credu bod y profiad yma wedi newid fy mywyd i. Mae wedi rhoi'r hyder i mi a'r wybodaeth i mi wneud newidiadau cadarnhaol yn fy mywyd.'

## Cymuned 2: Stori Gwenfô

Yn dilyn llwyddiant y mapio cymunedol yn Sain Tathan, estynnwyd gwahoddiad i'r tîm CGC fynd i'r afael â chynllun peilot pellach gyda Chymuned Gwenfô. Canolbwyntiodd yr ardal darged ar gyfer y mapio cymunedol ar ardal Cyngor Cymuned Gwenfô yn unig.

Gyrrwyd y mapio cymunedol gan awydd y Cyngor Cymuned am adeilad llyfrgell newydd. Yn dilyn ymarferiad ymgysylltu â'r gymuned y Cyngor Cymuned yn 2012, roedd rhestr o 16 o flaenoriaethau wedi eu nodi gan gynnwys llyfrgell newydd.

Ers 2012 roedd cymuned Gwenfô wedi newid gyda datblygiadau preswyl newydd ar Port Road a hen stiwdios teledu HTV, ger Croes Cwrlwys. Yn ychwanegol fel rhan o'r datblygiadau newydd, roedd arian isadran 106 (cyllid gan ddatblygwyr a roed i'r Cyngor i leddfu effaith y datblygiad) wedi ei roi i Gyngor y Fro i fynd at adnoddau cymunedol. Er bod rhai aelodau o'r Cyngor Cymuned yn teimlo bod dealltwriaeth dda ganddynt o flaenoriaethau'r gymuned, roedd teimlad bod adborth cymunedol cyfredol yn bwysig er mwyn deall beth oedd eu hanghenion gwasanaeth a beth oedd y blaenoriaethau ar gyfer gwariant yr arian isadran 106.

Roedd y gefnogaeth a roddwyd gan y tîm CGC fwy hyd fraich yn y Wenfô nag ydoedd yn Sain Tathan er mwyn profi a fyddai'r gymuned yn bwrw ati eu hunain gyda'r ymarferiad. Fe aethom i nifer o gyfarfodydd gydag is-dîm o'r Cyngor Cymuned i osod cynllun ymgysylltu yn ei le. Daeth yn amlwg mai cyfyng oedd gallu'r cynrychiolwyr cymunedol i ymrwymo i arwain ar yr ymgysylltu mapio cymunedol.

Rhoddodd y tîm CGC gefnogaeth o safbwynt paratoi'r arolwg, dylunio a dosbarthu taflenni i bob eiddo, datganiadau i'r wasg a threfnu'r digwyddiadau mapio cymunedol. Dosbarthwyd taflenni i'r holl eiddo gan gwmni dosbarthu. Helpodd gwirfoddolwyr gyda hyrwyddo'r digwyddiadau mapio cymunedol a'r arolwg ar dudalen Facebook Gwenfô ac ysgrifennu erthygl yn 'Wenvoe What's On' yn ogystal â dosbarthu copïau papur o'r daflen fach a'r arolwg yn siop y pentref, y ganolfan Gymunedol a'r llyfrgell. Roeddent yn anhepgor i gysylltu â phreswylwyr lleol a'u hannog i gwblhau arolwg y pentref. Cwblhawyd cyfanswm o 91 holiadur.

O ystyried y cyfyngiad amser ar wirfoddolwyr penderfynwyd ar adeg gynnar yn y broses i gysylltu â'r digwyddiadau fodolai eisoes gan gynnwys Sioe Gynnyrch y Pentref ym mis Medi 2016 a drefnwyd gan y grŵp Sgowtiaid lleol a'i gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Gwenfô. Cymerodd cyfanswm o 85 o bobl ran yn yr ymarferion mapio cymunedol oedd yn cynnwys pleidleisio ar 16 o brojectau blaenoriaeth a nodwyd nôl yn 2012. Profodd hyn yn ddull da o ymgysylltu a chynulleidfa eang gan ddechrau sgyrsiau. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi lle roeddent yn byw ar fap mawr o'r pentref ac yn ogystal â chais iddynt ysgrifennu eu huchelgais ar gyfer yr ardal ar ddail papur a gafodd eu gludo wedyn ar goeden freuddwydion. Roedd y digwyddiad hwn yn arbennig o lwyddiannus yn trafod dyfodol yr ardal gyda sector o'r gymuned oedd yn pontio'r cenedlaethau.



Mynychodd y tîm CGC brynhawn coffi MacMillan Ysgol Gynradd Gwenfô gan gwblhau'r un ymarferion mapio cymunedol ag a wnaed yn Sioe Gynnyrch y Pentref yn gynharach y mis hwnnw. Cymerodd oddeutu 50 o breswylwyr ran, ond roedd hi'n anos cael sgyrsiau gan fod nifer yn edrych ar ôl plant bach.

O'r trafod, a chanlyniad yr arolwg, tanlinellwyd yr un tri phrif flaenoriaeth gan y gymuned sef 1) creu caffi i'r pentref, 2) creu llyfrgell newydd allasai fod yn aml-ddefnydd gan gynnwys caffi a 3) clwb ar ôl ysgol a gwella mannau chwarae a man chwarae gemau aml-ddefnydd.

Gan fod llai o gefnogaeth gan CGC ar gyfer y mapio cymunedol yn y Wenfô, ni chafodd perthynas cyn gryfed ei sefydlu gyda'r gymuned ag a wnaed yn Sain Tathan. Fodd bynnag mae'r adborth o'r mapio cymunedol wedi ei rannu gyda Chyngor y Fro sy'n awyddus i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i gwblhau ymchwil pellach er mwyn mynd â'r project llyfrgell yn ei flaen. Yn ogystal gyda'r dystiolaeth a gasglwyd gan y mapio cymunedol, mae'r Cyngor Cymuned wedi cyflwyno cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig at godi adeilad llyfrgell newydd. Teimlwn fod y mapio cymunedol yn broses barhaus ac mae angen gwaith pellach er mwyn sefydlu sut olwg fyddai ar ddarpariaeth llyfrgell newydd.

## Cymuned 3: Stori'r Rhws

Y gymuned olaf yr aeth CGC ati i'w mapio'n gymunedol oedd Y Rhws. Roedd Tîm Rheoli Llyfrgell y Rhws (TRhLlRh) wedi dod at y tîm i gynorthwyo gyda'r gwaith mapio yn y gymuned ehangach yn Y Rhws. Roedd y TRhLlRh yn y broses o gymryd yr awenau yn y llyfrgell oddi ar y cyngor ac yn awyddus i wybod gan y gymuned pa wasanaethau/gweithgareddau garen nhw eu gweld yn y dyfodol. Y nod oedd i'r gymuned yrru'r ymarferiad a CGC i roi cefnogaeth gyfyngedig.

Mae ward y Rhws yn ward ddaearyddol fawr yn y Fro wledig gan gynnwys cymuned y Rhws yn ogystal â nifer o bentrefi bychain cyfagos. Mae'r Rhws ei hun yn anghydweddol ag iddi nifer o ardaloedd gwahanol. Mae'r ardal yn profi newidiadau mawr gan gynnwys datblygiadau newydd yn Nhrwyn y Rhws.

Cawsom ychydig o gyfarfodydd gyda TRhLlRh, ond gan fod y rhan fwyaf ar-lein roedd hi'n anodd creu perthnasau cryfion. O ystyried mai un o brif ganlyniadau mapio cymunedol yw ffurfio cysylltiadau, gwell gennym gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Cytunwyd ar amryw o weithgareddau ymgysylltu cymunedol gennym gan gynnwys mynd i'r afael ag arolwg cymunedol, cyfres o sesiynau galw heibio a digwyddiad mapio cymunedol drwy wahoddiad yn unig. Rhoddodd CGC gefnogaeth yn nhermau trefnu'r arolwg, argraffu taflenni bychain a threfnu digwyddiadau. Roedd y gr p yn arwain ar ddarparu cysylltiadau cymunedol ac adeiladu cefnogaeth o



fewn y gymuned. Rhoddodd Clwb Gwaith Cartref y Fro gefnogaeth anhepgor yn dosbarthu taflenni i'r holl aelwydydd yn y Rhws.

Paratodd CGC arolwg cymunedol mewn ymgynghoriad â TRhLlRh oedd ar agor am 5 wythnos o ganol mis Hydref i ganol Tachwedd 2016. Cwblhawyd cyfanswm o 185 arolwg.

Roedd y ddau sesiwn galw heibio yn llai llwyddiannus, yn rhannol yn sgil gosodiad yr adeiladau sydd heb gyntedd helaeth i arddangos deunydd defnyddiol yn eglur, llai o frwdfrydedd gan y rhai hynny fynychodd y gweithgareddau yn yr adeilad i ymgysylltu gyda ni ac yn debyg iawn i Sain Tathan, roedd preswylwyr yn ymddangos yn amharod i 'alw heibio a chael sgwrs'. Wedi dweud hynny, fe ddaeth preswylydd draw am sgwrs mewn un ganolfan gymunedol a chanddo ddiddordeb gwirfoddoli yno. Fe lwyddon ni ei chysylltu'n syth â'r cadeirydd a'r canlyniad oedd iddi fynychu'r cyfarfod pwyllgor ar yr un diwrnod.

Y gweithgaredd olaf oedd cynnal gweithdy mapio cymunedol gan wahodd preswylwyr / cynrychiolwyr oedd yn weithgar yn y gymuned i ddod ynghyd a chael sgwrs am ddarpariaeth gwasanaeth yn y Rhws, lle yr oedd bylchau yn y ddarpariaeth a beth oedd eu dymuniadau ar gyfer y dyfodol.

Mynychodd cyfanswm o 16, yn dilyn proses faith o ffonio pobl yn unigol a gofyn iddynt a oedd diddordeb mynychu ganddynt. Wrth edrych yn ôl, efallai y byddai wedi bod yn well agor y gwahoddiad i'r gymuned gyfan yn y gobaith y byddai mwy o bobl wedi mynychu. Yn yr un modd efallai y byddai wedi bod yn fwy effeithiol i'r grŵp wahodd a rhedeg ar ôl mynychwyr. Roedd yn teimlo fel digwyddiad oedd yn cael ei redeg gan CGC yn hytrach na chan TRhLlRh ac roedd diffyg perchnogaeth gymunedol arno.

Roedd yna fodd bynnag gr p amrywiol o bobl a fynychodd a fwydodd yn ôl iddynt werthfawrogi'r sesiwn a'i fod yn ddefnyddiol cael cyfle i rwydweithio a chlywed barn a syniadau pobl eraill.

Dyma oedd y gweithdy mapio cymunedol cyntaf a gynhaliwyd gan y tîm CGC a rhoddodd gyfle i dreialu rhai o'r ymarferion o'r Offer Mapio Cymunedol gan gynnwys 'Fy hoff lefydd', y 'Goeden Freuddwydion' a thaflu syniadau am wasanaethau/ gweithgareddau newydd yn y llyfrgell. Yn y dyfodol efallai y byddai'n syniad treulio ychydig mwy o amser ar syniadau i dorri'r garw er mwyn ysgogi pobl i siarad gyda'r bobl hynny na fyddent fel rheol trafod â nhw, a llai o amser ar yr ystod o weithgareddau mapio cymunedol. Ar ben hynny fe geisiom fynd dros ormod o bethau oedd efallai wedi peri dryswch, yn hytrach nag ar un mater megis y llyfrgell.

Dywedodd y Cynghorydd Jeffery James fod 'y Mapio Cymunedol wedi cael derbyniad da gan y gymuned a gallai pobl weld budd ymgynghori â phreswylwyr. Roedd cynnydd wedi bod yn yr ymwybyddiaeth ynghylch pa sefydliadau eraill oedd yn bodoli yn y Rhws a hefyd dymuniad i gynyddu'r cydweithredu rhyngddynt.'

Dywedodd Karen o TRhLlRh 'Doeddwn i ddim yn credu bod pobl wedi ei ddeall. Mae'r derminoleg yn newydd i bobl yn un peth felly pan welon nhw'r wybodaeth ar boster doedden e ddim yn golygu llawer iddynt. Mae angen gwneud mwy o waith braenaru i wneud hyn yn ystyrlon i bobl.' Roedd hyn yn adborth defnyddiol i ddeall pwysigrwydd symleiddio pethau a defnyddio llai o jargon. Yn yr un modd, tanlinellodd yr ymarferiad fod angen mwy o gefnogaeth ar y gymuned hon a gwaith braenaru gan CGC i hyrwyddo a hwyluso'r project mapio cymunedol. Fe gawson ni lawer yn llai o sgyrsiau unigol, a chanlyniad hynny oedd llai o berthnasau cryfion yn datblygu a dim pencampwyr cymunedol yn dod i'r wyneb.

## Cymuned 4: Stori Ystradowen

Doedd tîm CGC ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith mapio cymunedol yn Ystradowen fodd bynnag fe ofynnodd Cymdeithas Chwaraeon a Chymuned Ystradowen (CChChY) am gymorth ein cynorthwyydd i wneud cais am Arian Datblygu Cymunedau Gwledig (ADCG) ddiwedd 2016.

Wrth adolygu'r ffurflen gais, sylweddolodd CChChY yn fuan iawn fod angen iddynt ddangos ymgysylltu cymunedol effeithiol. Nhw oedd y gr p cyntaf i dderbyn copi o'r offer mapio cymunedol drafft ac fe aethon nhw ati i fynd i'r afael â'u siwrne mapio gymunedol.

Pentref gwledig sy'n tyfu o ryw 800 o breswylwyr yw Ystradowen. Mae'r pentref wedi ymrannu'n raddol dros y blynyddoedd gyda hollt gynyddol rhwng y rhai hynny sydd wedi byw am flynyddoedd yn y pentref a'r newydd-ddyfodiaid. Mae'r gymuned wedi newid dros y blynyddoedd gyda llawer o breswylwyr yn cymudo pellteroedd mawr, plant yn mynychu nifer o ysgolion a mwy o henoed wedi eu hynysu. Roedd CChChY yn teimlo ei bod hi'n bryd mynd i'r afael ag ymarferiad mapio cymunedol.

O ystyried y datblygiadau newydd yn y pentref, roedd Cyngor Cymuned Pen-llin yn ymwybodol fod arian S106 ar gael ar gyfer adnoddau cymunedol. Nododd CChChY yr angen am adnoddau chwarae ychwanegol ar gyfer pobl ifanc a mwy o ofod yn Neuadd y Pentref fel mannau y gellid eu gwella fodd bynnag doedd dim adborth gan y gymuned gan y grŵp ynghylch eu barn ar y cynigion hyn.

Ac felly y dechreuodd y daith i fapio'r gymuned. Y cam cyntaf oedd dechrau ar sgyrsiau gyda'r gymuned ehangach. Agwedd y grŵp oedd dweud bod arian ar gael ganddynt a holi'r gymuned sut y dymunent weld yr arian hwnnw yn cael ei wario fel modd o godi diddordeb yn y project.



Yn y digwyddiad Tân Gwyllt blynyddol ar 5 Tachwedd 2016, derbyniodd dros 220 o fynychwyr dri thocyn i'w dosbarthu rhwng chwe maes i'w datblygu oedd wedi eu nodi gan y CChChY, sef technoleg ddigidol a band llydan; adnoddau hamdden ac iechyd; adnoddau chwarae dan-11; gweithgareddau ieuenctid; teithiau twristaidd a gofodau agored cyhoeddus; a mannau cwrdd cymunedol. . Anogwyd plant i ymuno gyda'r oedolion oedd gyda nhw i drafod a gwneud dewisiadau wrth iddynt gwrdd cyn ac wedi'r arddangosfa. Ymgysylltodd y preswylwyr yn frwdfrydig. Roedd yn cael ei weld fel ffordd dda o hyrwyddo'r gweithgareddau mapio cymunedol eraill. Nododd sawl un "ei fod yn syniad da", 'ei fod yn hwyl' a'u bod yn 'hapus iawn fod rhywun wedi gofyn iddynt' yn y modd hwn. Roedd y grŵp yn ei gweld fel ymarfer gwerthfawr i hyrwyddo'r gwaith mapio cymunedol ehangach a ffordd dda o gynhesu'r gymuned a dechrau ar y sgyrsiau.

Trefnwyd ymarferiad ymgysylltu pellach i dargedu pobl ifanc rhwng 10-11 oed (Blwyddyn 6 mewn dwy ysgol gynradd leol, Pendeulwyn a Llansanwyr). Holwyd hwy faint o ddefnydd roeddent yn ei wneud ar adnoddau yn Ystradowen, os oedd mynediad at gyfrifiaduron ganddynt a pha faterion allan o restr a gyflwynwyd oedd bwysicaf ganddynt. Ffyrdd mwy diogel, gweithgareddau i rai hŷn a chyfleusterau chwarae oedd y tri mater pwysicaf ganddynt.

Er mwyn cyflawni darlun llawnach a mwy cynhwysol o'r anghenion tybiedig, cynhaliodd y CChChY arolwg cymunedol oedd yn agored i breswylwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid yn Neuadd y Pentref. Daeth yr ymatebion yn ôl ar-lein drwy Surveymonkey (79%) neu drwy gopi papur a ddosbarthwyd i bob aelwyd yn y pentref (21%). Nododd y grŵp y bu'n rhaid iddynt feithrin y sgiliau i ddefnyddio survey monkey a dadansoddi'r wybodaeth a gymerodd rai diwrnodau i un gwirfoddolwr. Er y defnyddiwyd yr arolwg yn yr offer mapio cymunedol fel fframwaith, fe'i newidiwyd yn sylweddol er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol. Roedd yr arolwg yn 'fyw' am dair wythnos ym mis Tachwedd a derbyniwyd cyfanswm o 123 ymateb. Syfrdanwyd y grŵp gan yr adborth gyda dim ond 40% o'r rhai a ymatebodd yn dweud bod yr ysbryd cymunedol yn y pentref yn dda. Tanlinellodd yr arolwg fod dau ganolbwynt i'r pentref bellach - canol traddodiadol y pentref gyda'r dafarn a'r neuadd bentref ond hefyd Ystâd newydd Badger's Brook.

Dywedodd Christopher Howard o grŵp CChChY fod 'yr arolwg yn fan da i gychwyn am ei fod yn ategu'r farn ond roedd hefyd wedi amlygu agweddau eraill nad oedd wedi cael eu hystyried.'

Wedi dadansoddi'r arolwg, nodwyd tri chynllun i'w blaenoriaethu. I brofi cefnogaeth y gymuned i'r rhain, cynhaliodd y CChChY Fforwm Pentref arall lle gwahoddwyd pob preswylydd a rhanddeiliad iddo. Hwyluswyd y digwyddiad gan breswylydd lleol a gyflogir fel hwylusydd proffesiynol wrth ei waith ac fe ddyluniodd yntau'r gweithgareddau a'u hwyluso gan rannu'r prif negeseuon, annog yr holl gyfranogwyr i ymgysylltu a chyfrannu gan ganiatáu dewis themâu a dewisiadau i'w blaenoriaethu. Daeth nifer helaeth yno gyda 52 o breswylwyr yn mynychu a chymryd rhan yn frwdfrydig. Roedd yr adborth yn hynod dda. Siaradodd y mynychwyr yn gadarnhaol am strwythur y digwyddiad a'r modd y teimlent eu bod yn gallu gwneud cyfraniadau a werthfawrogwyd. Roedd teimlad gwirioneddol yno o gymuned 'yn dod ynghyd' yn deillio'n syml o'r ffaith eu bod nhw wedi dod yno.

Ymhlith yr adborth gan fynychwyr roedd "y digwyddiad yn ffordd wych o ddod â'r gymuned ynghyd...ei bod yn ffantastig gweld pobl o bob oed yn dod at ei gilydd a rhannu syniadau' a 'mae hwn wedi bod yn gyfarfod hynod werthfawr am ei fod wedi fy ngalluogi i gwrdd â phentrefwyr eraill a chlywed / rhannu syniadau'.



Dim ond dwy awr oedd y fforwm ac roedd wedi ei drefnu yn dda. Anogwyd mynychwyr i gymryd rhan gyda nifer o ymarferion torri'r garw i ddechrau'r trafod a thrafod mewn grwpiau bychain gan ddefnyddio dulliau 'taflu syniadau tawel' a 'mapio delfrydau' i gynhyrchu ystod eang o syniadau posib. Cawsant wedyn eu coladu gan bob grŵp bychan yn 'themâu tebyg' cyn i 'bleidleisio smotiog' gael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r syniadau mwyaf ymarferol ac a gâi'r effaith fwyaf.

Roedd consenswS wrth gymeradwyo'r syniadau canlynol a flaenoriaethwyd yn ystod cyfarfod rhannu llawn ar ddiwedd y digwyddiad ac fe ffurfiodd hwn Gam cyntaf y cais am ADCG. 2 fan chwarae newydd gyda seddi ac adnoddau BBQ, 'Llwybr Heini', Llwybr Treftadaeth ac estyniad i'r Neuadd Bentref.

Dywedodd preswylydd newydd arall ei bod yn brynhawn cadarnhaol – yn braf fel preswylydd newydd i gwrdd ag eraill a rhannu syniadau. Bydd hi'n gyffrous gweld beth ddaw ohono.'.

Mae hwn yn esiampl o ymarferiad mapio cymunedol effeithiol dros ben sydd wedi ei yrru'n llwyr gan grŵp o drigolion lleol brwdfrydig, ag ystod o sgiliau a phrofiad yn ogystal ag amser i'w roi. Maent wedi ymgysylltu â thrigolion newydd a rhai sydd wedi hen ymsefydlu ar hyd y daith er mwyn dod o hyd i ystod o brojectau newydd yn ogystal ag ail-adeiladu ysbryd cymunedol y pentref.

**Gwersi allweddol a ddysgwyd**

Hannah Dineen, Uwch Swyddog Adfywio gyda CGC fu'n arwain y project sy'n rhannu'r gwersi allweddol a ddysgwyd:

1. Sicrhewch mai'r gymuned leol mewn gwirionedd sy'n gyrru'r peth.
2. Canolbwyntiwch ar y pethau cadarnhaol o fewn cymunedau.
3. Peidiwch â thanbrisio pwysigrwydd sgyrsiau unigol er mwyn creu perthnasau.
4. Byddwch yn gynhwysol a chynnwys gymaint â phosib o'r gymuned
5. Anogwch breswylwyr i gofleidio newid, yn hytrach na pharhau a'r modd y bu pethau erioed.
6. Cadwch yr iaith yn syml a deniadol i ddenu pobl i ymgysylltu.
7. Datblygwch dîm o wirfoddolwyr ag ystod o sgiliau personol, trefnu a dadansoddi.
8. Neilltuwch amser iddo - .
9. efallai y cymer fwy o amser nag y tybioch, ond bydd yr hyn gewch allan ohono gymesur â'r hyn a roesoch i mewn iddo
10. Efallai y bydd angen cefnoga

.

Mapio Cymunedol

# Pecyn Cymorth



Cynhyrchwyd gan Cymunedau Gwledig Creadigol,
Cyngor Bro Morgannwg
Mawrth 2017

www.creativeruralcommunities.co.uk
creativeruralcommunities
@ruralvale @frowledig